Y WERIN
CRONFA DREFTADAETH
LEGACY FUND
Ymddiriedolaeth Gwaddol Cyfyngedig PC
The UW Restricted Endowment Trust

# Ysgoloriaeth Plant Aber-fan

*Darperir yr ysgoloriaeth hon o'r incwm o rodd i'r Brifysgol ym 1968 gan Gymdeithas Gymraeg San Francisco er cof am y plant a laddwyd yn nhrychineb Aberfan ym 1966. Diben yr ysgoloriaeth yw hybu awydd ymhlith pobl ifanc sy'n byw yn Aber-fan ac yn mynd i'r ysgol yno i fynd i'r Brifysgol.*

1. Dyfernir yr Ysgoloriaeth bob blwyddyn gan UWRET i berson ifanc o oedran ysgol, yr oedd eu rhieni yn byw yn Aber-fan adeg y trychineb, neu os nad oes ymgeisydd â chymwysterau addas, i berson o oedran ysgol sy'n byw ym Merthyr Tudful.
2. Yn y ddau achos uchod, dyma fydd trefn y flaenoriaeth:
   (a) Ymgeiswyr sy'n bwriadu mynd i Brifysgol Caerdydd, yn fyfyrwyr israddedig y flwyddyn gyntaf.
   (b) Ymgeiswyr sy'n bwriadu mynd i unrhyw Brifysgol arall yng Nghymru, yn fyfyrwyr israddedig y flwyddyn gyntaf.
3. Rhyw £1,500[1] y flwyddyn fydd gwerth yr Ysgoloriaeth a gall y swm hwn gael ei rannu rhwng dau neu ragor o ymgeiswyr â chymwysterau addas. Delir yr Ysgoloriaeth am hyd at dair blynedd.[2]
4. Gellir cael ffurflenni cais ar gyfer yr Ysgoloriaeth oddi wrth UWRET, Cofrestrfa Prifysgol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NS a rhaid eu dychwelyd erbyn 1 Mehefin[3] yn y flwyddyn y mae'r ymgeisydd yn bwriadu dechrau mynd i'r Brifysgol.

---

Caiff y rheoliadau hyn eu ffurfio ar sail y gymynrodd wreiddiol. Wrth wneud dyfarniad, gall yr Ymddiriedolwyr ddefnyddio eu doethineb a dehongli'r gymynrodd yn addas i'r cyfnod modern.

Bydd unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at 'Brifysgol/ion yng Nghymru' yn golygu sefydliadau achrededig blaenorol Prifysgol Cymru neu brifysgolion eraill sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru.

1. Bydd union werth y dyfarniad yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.
2. Cymesur ac yn amodol ar y cyllid sydd ar gael
3. Mewn rhai blynyddoedd gellir estyn y dyddiad cau